

## **Anabledd ac iaith Canllawiau defnyddio terminoleg anabledd**

**Lowri Williams a Delyth Prys**

## **cynnwys - contents**

Diolchiadau	3
Rhagair	4
Dau fodel o anabledd	5
Nam ac anabledd	5
Pwyslais ar yr unigolyn	6
Diabetes	7
Disgrifio pobl nad ydynt yn anabl	7
Disgrifiadau cadarnhaol	8
Geiriau sydd wedi magu ystyr ddifriol	9
Iaith Arwyddion Prydain a ieithoedd eraill na lefarir	10
Gair i Gloi	11
Sut i ddefnyddio'r terminoleg	12
Cymraeg - Saesneg	13

Cynhyrchwyd yn y Ganolfan Safoni Termau, Prifysgol Cymru Bangor ar gyfer Anabledd Cymru gyda chymorth ariannol Bwrdd yr Iaith Gymraeg a'r Comisiwn Hawliau Anabledd yng Nghymru

Anabledd Cymru yw cymdeithas genedlaethol y grwpiau anabledd sy'n gweithio i hyrwyddo hawliau, cynhwysedd, cydraddoldeb a chefnogaeth i holl bobl anabl Cymru

£15.00

ISBN 1 903396 01 8

© Anabledd Cymru 2001

Cyhoeddwyd gan Anabledd Cymru  
Argraffwyd gan AST Print Group, Caerdydd

Mae Anabledd Cymru yn elusen gofrestrdedig, rhif 517391 ac yn gwmni wedi ei gyfyngu drwy warant, rhif 1998621

## Diolchiadau

Gwnaeth llawer o bobl project hwn yn bosibl. Yn gyntaf hoffem ddiolch i Fwrdd yr Iaith Gymraeg, nid yn unig am eu cymorth ariannol, ond hefyd am gyngor a chefnogaeth werthfawr. Yn ail, diolch i Delyth Prys, Prif Olydd y Ganolfan Safoni Termaw, Prifysgol Cymru, Bangor, a'r ymchwilydd, Lowri Williams, am eu hymrwymiad i wneud i'r project hwn lwyddo. Hoffem hefyd ddiolch i Gomisiwn Hawliau Anabledd Cymru am gymorth ariannol gyda'r costau cynhyrchu.

Yn olaf, dymunwn ddiolch i'r holl bobl anabl, yn unigolion ac yn grwpiau, a roddodd eu hamser a'u cyngor i ni. Hebddynt hwy ni fyddai'r project hwn wedi bod yn bosibl.

# Canllawiau Defnyddio Terminoleg Anabledd

"Unigolion yw pobl anabl, nid cyflyrau meddygol"

## Rhagair

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r modd y mae cymdeithas yn ymateb i anabledd wedi newid cryn dipyn. Tan yn ddiweddar ymateb cymdeithas oedd gadael i weithwyr gwasanaethau cymdeithasol a meddygol ofalu am bobl anabl mewn sefydliadau neu gartref, yn hytrach na derbyn pobl anabl fel aelodau cyfartal a gwerthfawr o gymdeithas. Yn ystod y degawd diwethaf yn unig y mae syniadau newydd ynglŷn â hawliau sifil cyfartal wedi ennill eu plwyf. Nid yw pobl anabl yn dderbynwyr 'gofal' yn unig, ond yn hytrach mae ganddynt yr un hawl â phobl eraill i gymryd rhan mewn gweithgareddau economaidd, cymdeithasol a gwleidyddol fel dinasyddion cyfartal. Rydym ar drothwy newid diwylliannol gwirioneddol sy'n galw am eirfa ac ymadroddion newydd i drafod materion anabledd. Mae cysyniadau a gwerthoedd newydd yn cael eu datblygu sy'n cael eu hadlewyrchu yn naturiol yn y geiriau yr ydym yn eu defnyddio.

Mae iaith yn arf pwerus iawn. Rydym ni'n ei defnyddio i gyfathrebu â'n gilydd, i gyfleu syniadau ac i fynegi teimladau a dymuniadau. Wrth i bobl anabl ddod yn fwy ymwybodol o'u hawliau fel dinasyddion cyfartal gall rhai o'r geiriau a'r ymadroddion 'traddodiadol' fod yn amhriodol a hyd yn oed yn sarhaus.

Mae gennym ddwy brif iaith yng Nghymru: Cymraeg a Saesneg. Mae'n bwysig ein bod yn defnyddio'r ddwy iaith mewn ffordd sy'n lleihau tramgwydd ac yn cryfhau'r diwylliant hawliau pobl anabl yng Nghymru.

Mae'r canllawiau hyn wedi'u bwriadu i roi cyngor adeiladol ar ba eiriau i'w defnyddio a pha eiriau i'w hosgoi wrth sôn am anabledd a phobl anabl. Mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn cyd-fyw o fewn yr un diwylliant yng Nghymru, a dylwn ddisgwyl yr un safon o gwrteisi ac o barch at bobl eraill yn y ddwy iaith.

Mae cyfieithu yn medru codi trafferthion yn ogystal â chyfleoedd arbennig yn y ddwy iaith. Ni allwn yn syml gyfieithu'n slafaidd rhwng y naill iaith a'r llall, a dylid cofio y gall term sydd ag ystyr ddifriol mewn un iaith (e.e. 'dumb' yn Saesneg neu 'afiach' yn Gymraeg) fod â thermâu cyfatebol yn yr iaith arall (e.e. 'mud' yn Gymraeg ac 'unhealthy' yn Saesneg) sydd heb fod â'r un cysylltiadau negyddol.

Wrth lunio'r canllawiau hyn buwyd yn siarad â nifer o unigolion a grwpiau o bobl anabl yng Nghymru i gael eu barn hwy ar y termau sy'n perthyn i faes anabledd. Eu dymuniadau hwy am y Gymraeg a'r Saesneg sy'n cael eu mynegi yma felly, ac er na ellir cael unfrydedd barn bob amser, gofynnir i bobl Cymru ystyried yn ofalus y math o eirfa y maent yn defnyddio ym maes anabledd, a dangos parch at bobl eraill drwy'r eirfa a'r ymadroddion a ddewisant yn Gymraeg a Saesneg fel ei gilydd.

## Dau fodel o anabledd

Datblygwyd dau fodel o faes anabledd yn ystod y blynyddoedd diweddar. Gelwir y naill yn fodel meddygol a'r llall yn fodel cymdeithasol. Mae'r model meddygol yn disgrifio problemau unigolion yn nhermau eu cyflwr meddygol. Mae'r model cymdeithasol ar y llaw arall yn gweld problemau unigolion yn ganlyniad i'r ffordd y mae cymdeithas wedi'i threfnu. Yn ôl y model meddygol ni all pobl mewn cadair olwyn ddefnyddio adeilad gan eu bod yn cael anhawster cerdded. Yn ôl y model cymdeithasol ni allant ddefnyddio'r adeilad oherwydd bod y pensaer wedi cynllunio'r adeilad heb fynedfa addas i gadeiriau olwyn. Y model cymdeithasol yw'r un y mae pobl anabl yn ei arddel, oherwydd bod y persbectif hwn yn annog cymdeithas i wneud gwell darpariaeth ar gyfer anghenion penodol pobl anabl.

## Nam ac anabledd

Mae'r mudiad anabledd yn gwahaniaethu rhwng **nam** ac **anabledd** fel a ganlyn:

**Nam** yw cyfyngiad ar allu unigolyn i weithredu sy'n cael ei beri gan nam ar y corff, y meddwl neu'r synhwyrau. Mae nam yn cyfleu cyflwr meddygol unigolyn.

**Anabledd** yw colli neu gyfyngu ar y cyfleoedd i gymryd rhan ym mywyd bob dydd cymdeithas ar yr un amodau ag eraill o ganlyniad i rwystrau corfforol a chymdeithasol. Mae person yn anabl o ganlyniad i rwystrau sy'n deillio o'i amgylchedd ac o agwedd pobl o fewn y gymdeithas sy'n ei atal rhag cymryd rhan weithredol yn y gymdeithas honno.

## Pwyslais ar yr unigolyn

Mae pob unigolyn yn profi ei nam mewn ffordd wahanol ac o ganlyniad dylid osgoi defnyddio ymadroddion sy'n clystyru pobl anabl i grŵp o bobl unffurf megis 'yr anabl' yn Gymraeg a 'the disabled' yn Saesneg. Yn yr un modd, ni ddylid dweud 'y byddar', 'y dall', 'yr epileptig', 'y diabetig' ond yn hytrach 'pobl fyddar', 'pobl ddall', 'pobl â diabetes', 'pobl ag epilepsi' ac ati. Pan mae arnom eisiau adnabod pobl gyda chyflyrau penodol, defnyddier 'pobl sydd â nam ar eu golwg', 'pobl sydd â nam ar eu clyw' ac ati.

Mae rhai grwpiau o fewn y gymdeithas anabledd wedi datblygu ymadroddion penodol sy'n adlewyrchu eu pryderon eu hunain. Mae afiechyd meddwl er enghraifft yn parhau i fod â stigma cymdeithasol enfawr yn perthyn iddo. Mae'r mudiad iechyd meddwl wedi herio'r stigma yma trwy ddefnyddio'r ymadrodd 'pobl gyda phroblemau iechyd meddwl'. Yn yr un modd, rydym wedi ymbellhau ein hunain o dermau megis 'anfantais meddwl' ('mental handicap' yn Saesneg) gan ddefnyddio ymadroddion newydd megis 'pobl sydd ag anawsterau dysgu'. Yn y meysydd hyn sydd â stigma mawr yn perthyn iddynt y mae iaith yn datblygu gyflymaf wrth i ni ddysgu cynnwys pobl sydd yn draddodiadol wedi cael eu trin waethaf gan gymdeithas.

Defnyddiwch	Peidiwch â defnyddio
pobl anabl <i>disabled people</i>	yr anabl <i>the disabled</i> pobl ag anabledd <i>people with disabilities</i>
pobl sydd â nam ar eu clyw <i>people with hearing impairments</i> pobl fyddar <i>deaf people</i>	y byddar <i>the deaf</i>
pobl sydd â nam ar eu golwg <i>people with visual impairments</i> pobl ddall <i>blind people</i>	y dall <i>the blind</i>
pobl ag epilepsi <i>people with epilepsy</i>	<i>epileptics</i>
pobl â diabetes <i>people with diabetes</i>	<i>diabetics</i>

## Diabetes

Yn Gymraeg y term traddodiadol am 'diabetes' yw 'clefyd siwgr' ond mae'r term yn annerbyniol gan Gymdeithas Diabetes Prydain oherwydd mai cyflwr, nid clefyd, ydyw. Nid yw meddygon chwaith yn hoffi'r term gan nad yw diabetes bob tro yn gysylltiedig â siwgr. Mae 'diabetes' yn derm sy'n dod o'r Lladin ond sy'n deillio'n wreiddiol o'r Groeg ac felly mae'n dderbyniol ei ddefnyddio yn Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg.

## Disgrifio pobl nad ydynt yn anabl

Gall yr ymadrodd Saesneg 'able-bodied person' beri tramgwydd i bobl gan ei fod yn cyfleu diffyg gallu person anabl ac yn tanlinellu'r model meddygol o anabledd drwy ganolbwyntio ar y nam. Yn Saesneg, y term derbyniol yw 'non-disabled person' sef person nad ydyw'n profi'r rhwystrau y mae pobl anabl yn gorfod eu hwynebu.

Yn Gymraeg, mae dweud bod rhywun yn 'gorfforol abl' yn tueddu i gyfleu rhyw allu corfforol arbennig ac yn difrïo pobl sydd ag anableddau corfforol ond sydd, er hynny, yn gallu cyflawni'r un gweithgareddau â phobl nad ydynt yn anabl. O ganlyniad yn Gymraeg awgrymir defnyddio 'pobl nad ydynt yn anabl'.

Ni ddylid cymysgu rhwng salwch ac anabledd. Ni ddylid cyfeirio at bobl nad ydynt yn anabl fel 'pobl iach' gan fod hynny'n atgyfnerthu'r syniad fod pobl sydd â nam ar y corff neu ar y synhwyrâu yn sâl. Yn yr un modd dylid osgoi termau megis 'normal' gan ei fod yn awgrymu fod person anabl yn annormal. Mae'r newid diwylliannol yr ydym yn ceisio ei adlewyrchu yn y canllawiau hyn yn defnyddio iaith i annog yr ymwybyddiaeth o amrywiaeth ymysg pobl. Mae arnom eisiau sicrhau bod y geiriau a'r ymadroddion a ddefnyddir yn cwmpasu nam ar y corff a nam ar y synhwyrâu, anawsterau dysgu a phroblemau iechyd meddwl yn yr amrediad o brofiadau a geir o fewn cymdeithas. Yn syml, mae 'normalrwydd' yn cynnwys pobl anabl.

Weithiau defnyddir 'amhariad' fel cyfieithiad o 'impairment' yn Saesneg. Fodd bynnag, y ffordd naturiol yn Gymraeg o fynegi'r cysyniad o ddiffyg neu broblem benodol ynglŷn â'r synhwyrâu'r cyneddfau yw drwy ddefnyddio'r gair 'nam', megis 'nam corfforol neu 'nam synhwyradd'. Mae hyn yn well na chyfieithu yn slafaidd o'r Saesneg ac yn derm sy'n fwy derbyniol yn gyffredinol. Os oes modd, dylid enwi'r nam yn Gymraeg gan ddefnyddio'r gystrawen 'nam ar y...' oherwydd mae hyn yn atgyfnerthu'r cysyniad nad yw'r cyflwr meddygol yn disgrifio'r person cyfan.

Defnyddiwch	Peidiwch â defnyddio
pobl nad ydynt yn anabl <i>non-disabled people</i>	pobl gorfforol abl <i>able-bodied people</i> pobl iach <i>healthy people</i> pobl normal <i>normal people</i>
anabledd <i>disability</i>	analluedd
anabl <i>disabled</i>	analluog
nam <i>impairment</i> nam synhawyraidd <i>sensory impairment</i>	amhariad amhariad synhwyraidd

## Disgrifiadau cadarnhaol

Gall iaith ddylanwadu ar y ffordd yr ydym yn gweld cyflwr. Disgrifiad cyffredin (yn Gymraeg a Saesneg) yw fod rhywun 'yn gaeth mewn cadair olwyn' (neu 'confined to a wheelchair'). Mae pobl sy'n defnyddio cadair olwyn yn dadlau nad eu caethiwo y mae'r gadair ond eu rhyddhau: y gadair sy'n eu galluogi i symud o gwmpas. Ni ddylid defnyddio 'yn gaeth i gadair olwyn' felly, ond yn lle hynny dylid dweud 'yn defnyddio cadair olwyn' neu (os oes angen bod yn gryno) 'mewn cadair olwyn'.

Ymadrodd arall sy'n gynyddol yn peri tramgwydd yw 'anghenion arbennig' (yn Saesneg 'special needs'). Mae'r term yn atgyfnerthu'r syniad na ddylai pobl anabl ddisgwyl, fel hawl sylfaenol, cael defnyddio adnoddau na chymryd rhan mewn gweithgareddau. Yn hytrach mae adnoddau 'arbennig' ar gael i gyfarfod ag anghenion 'arbennig' (h.y. annormal). Yn union fel mae toiled i ferched neu gyfleusterau newid clwt babi i'w disgwyl fel cyfleusterau sylfaenol ac nid fel cyfleusterau 'arbennig' ar gyfer merched neu rieni, felly ni ddylid gweld anghenion personol pobl anabl fel rhai 'arbennig'. Defnyddier 'anghenion penodol' ('specific requirements') fel term safonol i ddisgrifio'r adnoddau y mae pobl anabl eu hangen i gymryd rhan mewn gweithgareddau.



Mae ymadroddion tebyg i 'yn dioddef o...' hefyd yn cyfleu gwerthoedd arbennig. Mae pwysleisio dioddefaint unigolyn yn dueddol o danlinellu'r model meddygol neu'r nam. Os oes rhaid nodi'r cyflwr dylid dweud fod gan y person gyflwr arbennig. Am yr un rheswm nid ydym yn argymhell disgrifio person anabl fel 'claf' (yn Saesneg 'patient') oni bai ei fod yn glaf mewn gwirionedd mewn ysbyty. Dylid defnyddio 'cleient' neu 'cwsmer' i gyfeirio at ddefnydd y person o'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ac asiantaethau eraill.

Defnyddiwch	Peidiwch â defnyddio
pobl sy'n defnyddio cadair olwyn pobl mewn cadair olwyn <i>wheelchair users</i>	pobl sy'n gaeth i gadair olwyn <i>people confined to a wheelchair</i>
anghenion penodol <i>specific needs/requirements</i>	anghenion arbennig <i>special needs</i>
pobl sydd â chyflwr arbennig <i>people with a particular condition/ people who have a particular condition</i>	pobl sy'n dioddef o gyflwr arbennig <i>people who suffer from a particular condition</i>
cleient <i>client</i> cwsmer <i>customer</i>	claf <i>patient</i>

## Geiriau sydd wedi magu ystyr ddifriol

Mae rhai geiriau yn peri tramgwydd naill ai oherwydd bod eu hystyron gwreiddiol yn rhai dilornus neu oherwydd bod defnydd bob dydd wedi rhoi ystyron newydd difriol iddynt. Dyma'r dosbarth o eiriau lle ceir mwyaf o wahaniaeth rhwng y Gymraeg a'r Saesneg oherwydd nid yr un yw tarddiad geiriau yn y ddwy iaith ac nid yr un geiriau sydd wedi'u defnyddio mewn ffordd ddilornus yn y ddwy iaith.

Yn Saesneg mae'r term 'handicap' wedi magu ystyr gwbl negyddol. Yn deillio o gêm fetio o'r ail ganrif ar bymtheg mae'n llawer mwy cyfarwydd fel term o fyd rasio ceffylau a golff, sy'n disgrifio'r baich y mae ceffylau cyflym a golffwyr da yn gorfod ei gario er mwyn rhoi cyfle cyfartal i eraill. Mae'r defnydd o'r term i ddisgrifio pobl anabl fel baich yn amlwg yn ddifriol ac yn cael ei atgyfnerthu gan y cysylltiad sydd â mynd â'ch cap yn eich llaw i ofyn am gardod.

Yn Gymraeg tueddir i gyfieithu ‘handicapped’ fel ‘o dan anfantais’ ac nid oes gan y term hwn yr un arlliw negyddol â ‘handicapped’. Fodd bynnag defnyddir ‘o dan anfantais’ hefyd i gyfieithu ‘disadvantaged’ a gwell cadw’r ymadrodd Cymraeg ar gyfer y cyd-destun anfantais gymdeithasol. Yng nghyd-destun anabledd gwell defnyddio ‘anabl’ yn hytrach nag ‘o dan anfantais’.

Mae ‘invalid’ yn derm arall yn Saesneg sy’n annerbyniol i rai sy’n ei gysylltu â’r elfennau ‘in-valid’. Unwaith eto mae’n well glynu at y term ‘disabled’ yn Saesneg ac ‘anabl’ yn Gymraeg.

Er bod ‘dumb’ yn wreiddiol yn ddisgrifiad ffeithiol o bobl na all siarad, y mae wedi magu ystyr ddifriol iawn yn Saesneg. Yn Gymraeg er hynny nid oes gan ‘mud’ yr un ystyr ddifriol â ‘dumb’ ac mae’n dderbyniol. Ar y llaw arall gall ‘mudan’ fod yn ddifriol ac mae hwn yn derm i’w osgoi. Argymhellir defnyddio ‘without speech’ yn Saesneg yn hytrach na ‘dumb’ ac mae ‘heb leferydd’ yn dderbyniol yn cyfateb i hyn yn Gymraeg.

Aeth ‘spastic’ i gael ei ddefnyddio’n ddifriol yn Saesneg, ac argymhellir bellach ddefnyddio ‘cerebral palsy’ yn lle hynny. Gan fod ‘sbastig’ yn Gymraeg yn perthyn yn agos i ‘spastic’ yn Saesneg, dylid osgoi hwn hefyd a defnyddio ‘parlys yr ymennydd’.

Defnyddiwch	Peidiwch â defnyddio
anabl <i>disabled</i>	<i>handicapped</i> <i>invalid</i>
mud heb leferydd <i>without speech</i>	mudan <i>dumb</i>
parlys yr ymennydd <i>cerebral palsy</i>	sbastig <i>spastic</i>

## Iaith Arwyddion Prydain a ieithoedd eraill na lefarir

Cofier mai iaith yw Iaith Arwyddion Prydain fel unrhyw iaith arall. Mae iddi ei gramadeg a’i chystrawen ei hun ac nid yw’n ddibynnol ar y Gymraeg nac ar y Saesneg. Mae defnyddio ‘lladmerydd’ neu ‘dehonglydd’ yn anghywir felly am rywun sy’n cyfieithu i’r iaith hon neu ohoni a dylid defnyddio ‘cyfieithydd’ a ‘chfyfieithydd ar y pryd’ fel y gwneir gyda ieithoedd eraill. Yn Saesneg dylid defnyddio ‘sign language interpreter’ a ‘chfyfieithydd iaith arwyddion’ yn Gymraeg. Ni ddylid defnyddio ‘arwyddwr’ yn Gymraeg na ‘signer’ yn Saesneg chwaith.

Mae'r iaith hon yn defnyddio mwy nag ystumiau dwylo yn unig. Mae gweddill y corff a'r wyneb yn rhan o fynegiant yr iaith, ac felly defnyddier 'iaith arwyddion' ac nid 'iaith dwylo' i'w disgrifio.

Yn yr un modd mae gan gyfathrebu trwy gyffwrdd, megis offer cyffyrdd-deipio neu gyfathrebu llaw i law i bobl sy'n fyddar ac yn ddall, ei derminoleg ei hun.

Defnyddiwch	Peidiwch â defnyddio
cyfieithydd iaith arwyddion <i>sign language interpreter</i>	lladmerydd dehonglydd arwyddwr <i>signer</i>
iaith arwyddion <i>sign language</i>	iaith dwylo

## Gair i Gloi

Wrth gwrs mae newid agwedd tuag at anabledd yn galw am fwy na defnyddio geiriau 'cywir' gan ei fod yn golygu ymgodymu â'r gwerthoedd a'r rhagdybiaethau sydd y tu cefn i'r ymadroddion a ddefnyddiwn. Mae'r canllawiau hyn yn adlewyrchu'r syniadaeth bresennol ond mae'r syniadau a'r geiriau a ddefnyddiwn yn datblygu'n barhaus ac o ganlyniad mae'r Gymraeg a'r Saesneg eu hunain hefyd yn newid. Pa iaith bynnag a ddefnyddir, mae'n rhan o'r datblygiad hwnnw.

Gobeithio bydd y canllawiau hyn yn annog pobl i feddwl am bobl anabl mewn ffordd gadarnhaol. O wneud hyn ni fydd yn rhaid i bobl ddibynnu ar ganllawiau ffeithiol ar eirfa ac ymadroddion anabledd, ond bydd yr iaith yn dilyn yn naturiol yn sgil eu hymdrechion i ystyried pawb fel dinasyddion cyfartal mewn cymdeithas. Yn y cyfamser, bydd yn rhaid inni i gyd gydweithio i sicrhau bod ein hieithoedd yn agored i newid – yn rhan o'r ateb ac nid rhan o'r broblem i bobl anabl yng Nghymru.

## Sut i ddefnyddio'r terminoleg

Mae rhai o'r termau a'r ymadroddion yn y canllawiau hyn yn delio â materion sy'n codi mewn cyd-destunau gwahanol. Mae rhai ohonynt yn ymwneud â deddfwriaeth gyfredol ar anabledd megis Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 ac mae iddynt ddiffiniadau cyfreithiol manwl. Mae eraill yn cael eu defnyddio i ddisgrifio cyflyrau a chyfleusterau meddygol a thechnegol. Mae'n debyg mae'r termau pwysicaf i'w deall fodd bynnag yw'r rhai hynny sydd wedi cael eu bathu gan bobl anabl a'u cymdeithasau, y mudiad anabledd. Mae gan y termau hyn hefyd ystyron sydd efallai yn fwy manwl na'r ffordd y mae pobl eraill yn defnyddio geiriau.

Mae rhai o enwau cyrff, budd-daliadau ac ati a geir yn y rhestr dermau yn rhai swyddogol a ddefnyddir gan y cyrff hynny eu hunain. Weithiau mae'r rhain yn hen enwau nad ydynt bellach yn cydymffurfio â'r termau sy'n cael eu cymeradwyo fel rhai derbyniol heddiw. Nid yw'r ffaith fod enw swyddogol wedi'i gynnwys yn y rhestr hon yn golygu ein bod yn cymeradwyo'r defnydd o rai o'r termau a geir ynddynt, ac fe'u nodir yma yn unig er gwybodaeth.

### **Byrfoddau**

**adf** - adferf

**ans** - ansoddair

**be** - berfenw

**eb** - enw benywaidd

**eg** - enw gwrywaidd

**eg/b** - enw gwrywaidd neu fenywaidd

**ell** - enw lluosog

**adj** - adjective

**adv** - adverb

**n** - noun

**v** - verb

Mae'r rhan ymadrodd yn cyfeirio at yr ymadrodd cyfan lle ceir mwy nag un gair, ac nid at eiriau unigol o fewn y term.

## Cymraeg - Saesneg

### A

**aciwbigo** *be* acupuncture

**adnabod anghenion** *be* identification of needs

**adnabod anghenion penodol pobl anabl** *be* identification of the specific needs of disabled people

**adran dai** *eb* adrannau tai housing department

**Adran Drafnidiaeth** *eb* Department of Transport

**addas ar gyfer anghenion unigolyn** *ans* suitable for an individual's needs

**addasiad** *eg* addasiadau modification

**addasiad rhesymol** *eg* addasiadau rhesymol reasonable adjustment

**addasu** *be* modify

**aelod artiffisial** *eg* aelodau artiffisial artificial limb

**afiechyd meddwl** *eg* afiechydon meddwl mental illness

**afiechyd niwrolegol neu gyhyrol cynyddol** *eg* afiechydon niwrolegol neu gyhyrol cynyddol progressive neurological or muscle wasting disease

**afiechyd tymor hir** *eg* long-term illness

**affasia** *eg* aphasia

**angen** *eg* anghenion need

**angen arbennig** *eg* anghenion arbennig special need

( *Dylid defnyddio'r term 'anghenion penodol' yn lle hwn lle bynnag y bo modd i ddynodi anghenion penodol sydd gan bobl anabl gan nad oes dim byd yn 'arbennig' am yr anghenion hynny.*

**angen dysgu** *eg* anghenion dysgu learning need

**angen penodol** *eg* anghenion penodol specific need

**anghenion dydd i ddydd** *ell* day-to-day needs

**anghenion gofal** *ell* care needs

**anghenion gofal personol** *ell* personal care needs

**amharu ar** *be* impair

**anabl** *ans* disabled

**anabledd** *eg* anableddau disability

**Anabledd Cymru** *eg* Disability Wales

**anabledd dysgu** *eg* anableddau dysgu learning disability

**anabledd parhaol a sylweddol** *eg* permanent and substantial disability

**anaf i'r pen** *eg* anafiadau i'r pen head injury

**analluog** *ans* invalid

( *Argymhellir peidio defnyddio 'analluog' i ddisgrifio pobl anabl gan ei fod yn awgrymu diffyg gallu neu ddiffyg deallusrwydd; yn hytrach dylid defnyddio 'anabl'.*

**analluogrwydd** *eg* incapacity

**anfantais** *eb* anfanteision handicap

( *Defnyddir 'dan anfantais' yn aml i gyfieithu 'handicap' ac er nad oes gan 'dan anfantais' yr un arlliw negyddol â 'handicap' byddai'n well ei gadw i*

*gyfateb i 'disadvantaged'. Defnyddier 'disability' yn Saesneg ac 'anabledd' yn Gymraeg.*

**anfantais eg anfanteision** disadvantage  
**anffurfiad difrifol eg anffurfiadau difrifol** severe disfigurement  
**anffurfiad cynhenid eg anffurfiadau cynhenid** congenital deformity  
**anhawster eg anawsterau** difficulty  
**anhawster dysgu eg anawsterau dysgu** learning difficulty  
**anhwylder meddwl eg anhwylderau meddwl** mental disorder  
**annhegwch eg** inequality  
**annormal ans** abnormal  
**anymataliaeth eb** incontinence  
**ar gael i weithio** available for work  
**arwydd corfforol eg arwyddion corfforol** physical indicator  
**arwydd lamp eg arwyddion lamp** lamp signal  
**arwydd ymddygiadol eg arwyddion ymddygiadol** behavioural indicator  
**arwyddwr eg arwyddwyr** signer  
( *Ni ddylid defnyddio'r term hwn am fod iaith arwyddion yn iaith yr un fath ag unrhyw iaith arall. Defnyddier 'cyfieithydd ar y pryd.'*)  
**asesiad eg asesiadau** assessment  
**asesiad gofal eg asesiadau gofal** care assessment  
**asesiad o anghenion unigolyn eg asesiadau o anghenion unigolyn**  
assessment of individual's needs  
**asesydd rheoli'r amgylchedd eg aseswyr rheoli'r amgylchedd**  
environmental control assessor  
**asiantaeth cysylltiadau llafur eb asiantaethau cysylltiadau llafur** labour  
relations agency  
**Asiantaeth Dyfeisiau Meddygol yr Adran Iechyd eb** Medical Devices  
Agency of the Department of Health  
**Asiantaeth Grantiau Gweithredu ac Ynni eb** Energy Action Grants Agency  
**asiantaeth ofalu eb asiantaethau gofalu** caring agency  
**asiantaeth recriwtio eb asiantaethau recriwtio** recruitment agency  
**atebolrwydd eg** accountability  
**Atodiad Symud o Gwmpas i Bensiynwyr Rhyfel eg** War Pensioner's  
Mobility Supplement  
**atodyn eg atodion** attachment  
**awdurdod iechyd rhanbarthol eg awdurdodau iechyd rhanbarthol** area  
health authority  
**awdurdod rhanbarthol eg awdurdodau rhanbarthol** area authority

## B

**bathodyn parcio i bobl anabl eg bathodynnau parcio i bobl anabl**  
disabled parking badge  
**bra meddygol eg bras meddygol** surgical brassière  
**BRIDGES eg BRIDGES**  
**Brigâd Ambiwlans Sant Ioan eb** St. John's Ambulance Brigade

**briw gorwedd eg briwiau gorwedd** pressure sore  
**bron artiffisial eb bronnau artiffisial** artificial breast  
**budd-dal eg budd-daliadau** benefit  
**budd-dal anabledd eg budd-daliadau anabledd** disability benefit  
**budd-dal anabledd anafiadau diwydiannol eg budd-daliadau anabledd anafiadau diwydiannol** industrial injuries disablement benefit  
**budd-dal analluogrwydd eg budd-daliadau analluogrwydd** incapacity benefit  
**budd-dal salwch eg budd-daliadau salwch** sickness benefit  
**bws llawr isel eg bysiau llawr isel** low-floor bus  
**byddar ans** deaf  
**byddardod eg** deafness  
**byw bob dydd be** daily living  
**byw'n annibynnol be** independent living

## C

**cadair arbennig eb cadeiriau arbennig** special chair  
**cadair olwyn eb cadeiriau olwyn** wheelchair  
**cadair olwyn arbenigol ar gyfer chwaraeon eb cadeiriau olwyn arbenigol ar gyfer chwaraeon** specialist sports wheelchair  
**cadair olwyn awyr agored gyda phŵer eb cadeiriau olwyn awyr agored gyda phŵer** powered outdoor wheelchair  
**cadair olwyn dan do gyda phŵer eb cadeiriau olwyn dan do gyda phŵer** powered indoor wheelchair  
**cadair olwyn drydan eb cadeiriau olwyn trydan** electric wheelchair  
**cadair olwyn drydan gyda sedd sy'n codi eb cadeiriau olwyn trydan gyda sedd sy'n codi** electrically powered wheelchair with riser seat  
**cael at be** access  
**cael mynediad (i) be** obtain access  
**cael mynediad i adeilad cyhoeddus be** access a public building  
**canllaw cydio eg canllawiau cydio** grabrail  
**canllaw toiled eg canllawiau toiled** toilet rail  
**canolfan eg/b canolfannau** centre  
**canolfan adnoddau eb canolfannau adnoddau** resource centre  
**Canolfan Adnoddau a Gwybodaeth Enwresis eb** Enuresis Resource and Information Centre  
**canolfan adnoddau iechyd meddwl eb canolfannau adnoddau iechyd meddwl** mental health resource centre  
**Canolfan Amgylcheddau Hygyrch eb** Centre for Accessible Environments  
**Canolfan Brydeinig i Bobl Fyddar eb** Link (British Centre for Deafened People)  
**canolfan budd-daliadau anabledd eb canolfannau budd-daliadau anabledd** disability benefit centre  
**canolfan byw i bobl anabl eb canolfannau byw i bobl anabl** disabled living centre

**canolfan byw'n annibynnol eb canolfannau byw'n annibynnol** centre for independent living  
**canolfan byw'n integredig eb canolfannau byw'n integredig** centre for integrated living  
**canolfan cyfathrebu â chymorth micro eb canolfannau cyfathrebu â chymorth micro** centre for micro-assisted communications  
**canolfan cymhorthion cyfathrebu eb canolfannau cymhorthion cyfathrebu** communication aids centre  
**canolfan cymhorthion cyfathrebu mewn addysg eb canolfannau cymhorthion cyfathrebu mewn addysg** aids to communication in education centre  
**canolfan cyngori ar anabledd eb canolfannau cyngori ar anabledd** disability advice centre  
**canolfan datblygu sgiliau eb canolfannau datblygu sgiliau** skills development centre  
**Canolfan David Lewis eb** David Lewis Centre  
**Canolfan Epilepsi Chalfont eb** Chalfont Centre for Epilepsy  
**canolfan fynediad eb canolfannau mynediad** access centre  
**canolfan galw heibio eb canolfannau galw heibio** drop-in centre  
**Canolfan Genedlaethol Cefnogaeth ME eb** National ME Support Centre  
**Canolfan Genedlaethol Llefaru gyda Chymorth i Bobl sy'n Fyddar ac yn Clywed eb** National Centre for Cued Speech for Deaf and Hearing People  
**canolfan gwasanaethau pobl anabl eb canolfannau gwasanaethau pobl anabl** disablement services centre  
**Canolfan Gynghori eb Canolfannau Gynghori** Citizen's Advice Bureau  
**canolfan hyfforddi eb canolfannau hyfforddi** training centre  
**canolfan iechyd eb canolfannau iechyd** health centre  
**canolfan iechyd meddwl yn y gymuned eb canolfannau iechyd meddwl yn y gymuned** community mental health centre  
**canolfan meddygon teulu eb canolfannau meddygon teulu** general practitioner surgery  
**Canolfan Michael Palin i Blant ag Atal Dweud eb** Michael Palin Centre for Stammering Children  
**canolfan teclynnau clyw eb canolfannau teclynnau clyw** hearing aid centre  
**cartref eg cartrefi** home  
**cartref am oes eg cartrefi am oes** lifetime home  
**cartref cadair olwyn eg cartrefi cadair olwyn** wheelchair housing  
**Cartref Elizabeth Fitzroy eg** Elizabeth Fitzroy Home  
**cartref grŵp eg cartrefi grŵp** group home  
**cartref gwarchodol eg cartrefi gwarchodol** sheltered housing  
**cartref gwirfoddol eg cartrefi gwirfoddol** voluntary home  
**cartref gwyliau wedi ei gynllunio ar gyfer pobl mewn cadair olwyn eg cartrefi gwyliau wedi eu cynllunio ar gyfer pobl mewn cadair olwyn** holiday home designed for wheelchair users



**cartref ymgeledd meddwl eg cartrefi ymgeledd meddwl** mental nursing home  
**Cartrefi'r Alban e//** Scottish Homes  
**casét sain eg casetiau sain** audio cassette  
**cefnogaeth eb** support  
**cefnogaeth cyfathrebu eb** communication support  
**cefnogaeth emosiynol eb** emotional support  
**cefnogaeth i blant anabl mewn ysgolion prif-ffrwd eb** support for disabled children at mainstream schools  
**cefnogi be** support  
**cefnogi ac annog pobl anabl be** support and encourage disabled people  
**Celfyddydau Anabledd Cymru e//** Arts Disability Wales  
**cerbyd cludiant cyhoeddus eg cerbydau cludiant cyhoeddus** public transport vehicle  
**cerdyn tacsï eb** cardiau tacsï taxi card  
**cerdyn rheilffordd person anabl eg cardiau rheilffordd pobl anabl** disabled person's railcard  
**ci clywed eg cõn clywed** hearing dog  
**ci tywys eg cõn tywys** guide dog  
**claf eg cleifion** patient  
*( Ni ddylid defnyddio 'claf' i gyfeirio at berson anabl, a dylid ei gadw yn unig i gyfeirio at bobl sy'n wael mewn unedau llym. Lle mae pobl anabl yn defnyddio gwasanaethau penodol, dylid defnyddio'r term 'cleient' neu 'cwsmer'.*  
**claf gwirfoddol eg cleifion gwirfoddol** voluntary patient  
**claf mewnol eg cleifion mewnol** in-patient  
**clinig cynllunio teulu eg clinigau cynllunio teulu** family planning clinic  
**clinig galw heibio eg clinigau galw heibio** drop-in clinic  
**clinig hybu iechyd eg clinigau hybu iechyd** health promotion clinic  
**cloc larwm sy'n fflachio neu'n crynu eg clociau larwm sy'n fflachio neu'n crynu** flashing or vibrating alarm clock  
**cloch drws sy'n dirgrynu eb clychau drws sy'n dirgrynu** vibrating doorbell  
**cloch drws sy'n fflachio eb clychau drws sy'n fflachio** flashing doorbell  
**cloch estyn eb clychau estyn** extension bell  
**cludiant cyhoeddus eg** public transport  
**clustog eg clustogau** cushion  
**Clwb Moduro Gyrwyr Anabl Cyf eg** Disabled Driver's Motor Club Ltd  
**cofnod anghenion eg cofnodion anghenion** record of needs  
**Coleg Cenedlaethol Brenhinol y Deillion eg** Royal National College for the Blind  
**Coleg Iechyd eg** College of Health  
**Comisiwn Cyfle Cyfartal eg** Equal Opportunities Commission  
**Comisiwn Iechyd Meddwl eg** Mental Health Commission  
**comõd eg comodau** commode  
**consesiwn eg consesiynau** concession  
**contractiwr cyfarpar eg contractwyr cyfarpar** equipment contractor

**corfforaeth dai eb corfforaethau tai** housing corporation  
**corfforol abl ans** able bodied  
*( Ni ddyliid defnyddio'r term hwn. Defnyddier 'heb anabledd' yn lle hynny.*  
**Cronfa Byw'n Annibynnol eb** Independent Living Fund  
**Cronfa Radio Prydain i'r Deillion eb** British Wireless for the Blind Fund  
**Cronfa Teleffonau i'r Deillion eb** Telephones for the Blind Fund  
**Cronfa Ymddiriedolaeth Carcharorion Rhyfel a Phobl a Gaethiwyd y Dwyrain Pell eb** Far East Prisoners of War and Internees Trust Fund  
**Cronfa'r Teulu eb** Family Fund  
**cwbl fyddar ans** profoundly deaf  
**cwch hir y gellir ei reoli o gadair olwyn eg cychod hir y gellir eu rheoli o gadair olwyn** narrow-boat controllable from a wheelchair  
**cydbwysedd eg** balance  
**cydraddoldeb eg** equality  
**cydsymud corfforol be** physical co-ordination  
**cydsyniad gwybodus eg** informed consent  
**cyfaill gwirfoddol eg cyfeillion gwirfoddol** befriender  
**cyfarpar eg** equipment  
**cyfarpar ac addasiadau ell** equipment and adaptations  
**cyfarpar anabledd eg** disability equipment  
**cyfarpar cartref eg** home equipment  
**cyfarpar cyfrifiadurol arbennig eg** special computer equipment  
**cyfarpar i bobl fyddar eg** equipment for deaf people  
**cyfeillio be** befriend  
**cyferbyniad lliw eg** colour contrast  
**cyfieithu be** interpret  
**cyfieithu ar y pryd be** simultaneous translation  
**cyfieithydd eg cyfieithwyr** interpreter  
**cyfieithydd ar y pryd eg cyfieithwyr ar y pryd** simultaneous translator  
**cyfieithydd iaith arwyddion eg cyfieithwyr iaith arwyddion** sign language interpreter  
**cyflawni be** achieve  
**cyflawni potensial cyflogaeth be** realise employment potential  
**cyflawni'r amcan be** achieve the objective  
**cyfle eg cyfleoedd** opportunity  
**cyfle cyfartal eg** equal opportunity  
**cyfleusterau gwyliau ell** holiday facilities  
**cyflogaeth agored eb** open employment  
**cyflogwr sydd wedi'i eithrio eg cyflogwyr sydd wedi'u heithrio** employer that is exempt  
**cyflwr cynyddol eg cyflyrau cynyddol** progressive condition  
**cyflwr diymateb parhaol eg** persistent vegetative state  
**cyflwr meddygol tymor hir eg cyflyrau meddygol tymor hir** long-term medical condition  
**cyfnod cymhwyso eg cyfnodau cymhwyso** qualifying period  
**cyfrifiannell lafar eb cyfrifianellau llafar** talking calculator

**Cynghrair Anabledd eb** Disability Alliance  
**Cynghrair Cenedlaethol Canser eb** National Cancer Alliance  
**Cynghrair Cyflyrau Meddygol Tymor Hir eb** Long-term Medical Conditions Alliance  
**Cynghrair Cymalwst Gengroenol eb** Psoriatic Arthropathy Alliance  
**Cynghrair Genedlaethol Pobl Ddall a Byddar eb** National Deafblind League  
**Cynghrair Niwrolegol eb** Neurological Alliance  
**cyngor eg cynghorau** council  
**cyngor eg cynghorion** advice  
**Cyngor Anabledd eg** Council for Disability  
**Cyngor Anabledd Cenedlaethol eg** National Disability Council  
**Cyngor Anabledd Gogledd Iwerddon eg** Northern Ireland Disability Council  
**Cyngor Canolfannau Byw i Bobl Anabl eg** Disabled Living Centres Council  
**Cyngor Celfyddydau Cymru eg** Welsh Arts Council  
**Cyngor Cenedlaethol Cyrff Gwirfoddol eg** National Council for Voluntary Organisations  
**Cyngor Cenedlaethol Gwasanaethau Hosbis a Gofal Lleddfol Arbenigol eg** National Council for Hospice and Specialist Palliative Care  
**cyngor clywed yn y cartref eg** in-home hearing advice  
**Cyngor Cyllido Addysg Uwch yr Alban eg** Scottish Higher Education Funding Council  
**Cyngor Cymdeithasau Pobl Anabl Prydain eb** British Council of Organisations of Disabled People  
**Cyngor Cymreig Pobl Fyddar eg** Welsh Council of Deaf People  
**Cyngor Gofal Cymuned eg** Council of Community Care  
**Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol eg** Council of Voluntary Service  
**Cyngor Hyfforddi a Menter eg** Training and Enterprise Council  
**Cyngor Hyrwyddo Cyfathrebu â Phobl Fyddar eg** Council for the Advancement of Communication with Deaf People  
**Cyngor Plant Anabl eg** Council for Disabled Children  
**Cyngor Ymgynghorol Cenedlaethol ar Gyflogaeth Pobl Anabl eg** National Advisory Council on Employment of People with Disabilities  
**cylch eg cylchoedd** group  
**cymdeithas eb cymdeithasau** society  
**Cymdeithas Affasioleg Prydain eb** British Aphasiology Society  
**Cymdeithas Afiechyd Huntington eb** Huntington's Disease Association  
**Cymdeithas Anafiadau'r Asgwrn Cefn eb** Spinal Injuries Association  
**Cymdeithas Atacsia-Telangiectasia eb** Ataxia-Telangiectasia Society  
**Cymdeithas Atal Dweud Prydain eb** British Stammering Association  
**Cymdeithas Baralympaidd Prydain eb** British Paralympic Association  
**Cymdeithas Cyfrifiaduron Prydain eb** British Computer Society  
**Cymdeithas Clefyd Alzheimer eb** Alzheimer's Disease Society  
**Cymdeithas Clefyd Niwronau Echddygol eb** Motor Neurone Disease Association  
**Cymdeithas Clefyd Parkinson eb** Parkinson's Disease Society

**Cymdeithas Coeliac Cyf eb** Coeliac Association Ltd  
**Cymdeithas Cŏn y Deillion eb** Guide Dogs for the Blind Association  
**cymdeithas cymorth gwirfoddol eb cymdeithasau cymorth gwirfoddol**  
 voluntary aid society  
**Cymdeithas Cyn-filwyr heb Aelodau Prydain eb** British Limbless Ex-  
 Servicemen's Association  
**Cymdeithas Cynlluniau Gofalwyr Crossroads Cyf eb** Crossroads  
**Cymdeithas Cynorthwyo Perthynas Rywiol a Phersonol i Bobl Anabl eb**  
 Association to Aid the Sexual and Personal Relationships of Disabled  
 People  
**Cymdeithas Chwaraeon Prydain i Bobl Anabl eb** British Sport Association  
 for the Disabled  
**Cymdeithas Chwaraeon y Deyrnas Unedig i Bobl ag Anabledd Dysgu eb**  
 United Kingdom Sports Association for the Mentally Disabled  
**Cymdeithas Chwaraeon yr Alban i Bobl Anabl eb** Scottish Sports  
 Association for the Disabled  
**Cymdeithas Deillion Henshaw eb** Henshaw's Society for the Blind  
**Cymdeithas Deuluol y Galon eb** Family Heart Association  
**Cymdeithas Diabetes Prydain eb** British Diabetic Association  
**Cymdeithas Dyslecsia Prydain eb** British Dyslexia Association  
**Cymdeithas Dystonia eb** Dystonia Society  
**Cymdeithas Epilepsi Prydain eb** British Epilepsy Society  
**Cymdeithas Frenhinol Cynorthwyo Pobl Fyddar eb** Royal Association in  
 Aid of Deaf People  
**Cymdeithas Frenhinol dros Anabledd ac Ailsefydlu eb** Royal Association  
 for Disability and Rehabilitation  
**Cymdeithas Frenhinol Llundain i'r Deillion eb** Royal London Society for  
 the Blind  
**Cymdeithas Genedlaethol Anafiadau'r Pen Headway Cyf. eb** Headway  
 National Head Injuries Association Ltd.  
**Cymdeithas Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl eb** MIND (National  
 Association for Mental Health)  
**Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth eb** National Autistic Society  
**Cymdeithas Genedlaethol Clybiau Laryngectomi eb** National Association  
 of Laryngectomy Clubs  
**Cymdeithas Genedlaethol Colitis a Chlefyd Crohn eb** National Association  
 for Colitis and Crohn's Disease  
**Cymdeithas Genedlaethol Cymdeithasau Lleol i Bobl sy'n Gweld yn**  
**Rhannol eb** National Association of Local Societies for the Visually  
 Impaired  
**Cymdeithas Genedlaethol Ecsema eb** National Eczema Society  
**Cymdeithas Genedlaethol Gweithdai Dillad eb** Awear  
**Cymdeithas Genedlaethol Llyfrgelloedd Teganau a Hamdden eb** National  
 Association of Toy and Leisure Libraries  
**Cymdeithas Genedlaethol Osteoporosis eb** National Osteoporosis Society

**Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar eb** National Deaf Children's Society

**Cymdeithas Genedlaethol Pobl Fyddar eb** National Association of Deafened People

**Cymdeithas Genedlaethol Poen Cefn eb** National Back Pain Association

**Cymdeithas Genedlaethol Sgitsoffrenia eb** National Schizophrenia Fellowship

**Cymdeithas Genedlaethol Swyddfeydd Gwirfoddolwyr eb** National Association of Volunteer Bureaux

**Cymdeithas Genedlaethol Tyndra Cyn Mislif eb** National Association for Premenstrual Tension

**Cymdeithas Genedlaethol y Cynhalwyr eb** Carers National Association  
*( Mae'r gymdeithas yn ganolog yn glynu wrth y gair 'Cynhalwyr' yn eu teitl Cymraeg, ond mae'n well gan nifer o gymdeithasau lleol ddefnyddio 'gofalwyr' ac argymhellir bod 'gofalydd' yn cael ei ddefnyddio yn yr unigol i gyfateb i 'carer' yn y Gymraeg )*

**Cymdeithas Gwefus a Thafnod Holtt eb** Cleft Lip and Palate Association

**Cymdeithas Gyrrwyr Anabl eb** Disabled Drivers' Association

**Cymdeithas Haemoffilia eb** Haemophilia Society

**Cymdeithas Iechyd Meddwl yr Alban eb** Scottish Association for Mental Health

**Cymdeithas Iselder Manig eb** Manic Depression Fellowship

**Cymdeithas John Grooms eb** John Grooms Association

**Cymdeithas Lles Meddwl Cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog eb** Ex-Services Mental Welfare Society

**Cymdeithas Marchogaeth i'r Anabl eb** Riding for the Disabled Association

**Cymdeithas Marfan y DU eb** Marfan Association UK

**Cymdeithas Masnachau Llawfeddygol Prydain eb** British Surgical Trades Association

**Cymdeithas ME eb** ME Association

**Cymdeithas Menière eb** Menière Society

**Cymdeithas Myasthenia Gravis eb** Myasthenia Gravis Association

**Cymdeithas Neurofibromatosis eb** Neurofibromatosis Association

**Cymdeithas Nid â'n Angof eb** Not Forgotten Association

**Cymdeithas Paget Gorman eb** Paget Gorman Society

**Cymdeithas Parlys Cynyddol Uwchniwclear eb** Progressive Supranuclear Palsy Association

**Cymdeithas Perthes eb** Perthes Association

**Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain eb** British Deaf Association

**Cymdeithas Pobl heb Aelodau eb** Limbless Association

**Cymdeithas Pobl sy'n Gweld yn Rhannol eb** Partially Sighted Society

**Cymdeithas Polio Prydain eb** British Polio Fellowship

**Cymdeithas Rathbone eb** Rathbone Society

**Cymdeithas Raynaud a Sgleroderma eb** Raynaud's and Scleroderma Association

**Cymdeithas Richmond eb** Richmond Fellowship

**Cymdeithas Ryngwladol Awtistiaeth eb** International Autistic Society  
**Cymdeithas Seren Burma eb** Burma Star Association  
**Cymdeithas Sglerosis Twberus eb** Tuberos Sclerosis Association (SOS)  
**Cymdeithas Shaftesbury eb** Shaftesbury Society  
**Cymdeithas Spina Bifida a Hydroceffalws eb** Association for Spina Bifida and Hydrocephalus  
**Cymdeithas Strôc eb** Stroke Association  
**Cymdeithas Syndrom Behcet eb** Behcet's Syndrome Society  
**Cymdeithas Syndrom Down eb** Down's Syndrome Association  
**Cymdeithas Syndrom Rett y DU eb** UK Rett Syndrome Association  
**Cymdeithas Syndrom Sjogren Prydain eb** British Sjogren's Syndrome Association  
**Cymdeithas Unedig Cleifion Canser Prydain eb** British Association of Cancer United Patients  
**cymdeithas wirfoddol eb cymdeithasau gwirfoddol** voluntary organisation  
**Cymdeithas y Cengroen eb** Psoriasis Association  
**Cymdeithas y Cleifion eb** Patients Association  
**Cymdeithas y Parlys Ymledol eb** Multiple Sclerosis Society  
